| ARGYMHELLION YR ADRODDIAD | SYLWADAU / YSTYRIAETHAU | PWYNTIAU GWEITHREDU DRAFFT |
|---|---|---|
| 1. Galluogi mwy o graffu cyn gwneud penderfyniadau drwy sicrhau bod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu'n cyd-redeg yn agosach â chyfarfodydd y Cabinet | • Mae lle i herio mai wrth gael mwy o graffu ymlaen llaw y mae gwella ansawdd gwaith craffu<br>• Fodd bynnag, mae elfen o graffu ymlaen llaw yn ei le eisoes a bydd cryfhau ymhellach ar hynny yn dibynnu i raddau ar yr ymateb i Argymhelliad 2<br>• Rydym yn herio a yw alinio cyfarfodydd (a chynnal mwy ohonynt) o reidrwydd y ffordd gorau i wella craffu.<br>• Mae lle yn hytrach i edrych eto ar y model pwyllgorau craffu yn ffres i weld a yw'n cyflawni ei bwrpas<br>• Mae anghysondeb yn llwythi gwaith y pwyllgorau presennol Mae modd cofnodi faint o graffu ymlaen llaw sydd yn digwydd | Sefydlu Is-grwp bychan (o Aelodau Archwilio, Craffu a Cabinet) a fydd yn:-<br>(a) edrych ar lwyth gwaith y pwyllgor ac ymchwilio i fodelau craffu eraill yn cynnwys trefniadau cefnogi<br>(b) cyfweld eraill am y modelau posib<br>(c) cyflwyno trefn syml o gofnodi faint o graffu ymlaen llaw sy'n digwydd<br>Yr is-grwp i lunio argymhellion i'w hystyried cyn i'r Cyngor gychwyn ar ei flwyddyn newydd ym Mai, 2016 |
| 2. Llunio rhaglen waith fanylach ar gyfer y Cabinet a sicrhau ei bod ar gael ar gyfer rhag-gyfarfodydd y pwyllgorau craffu | • Mae rhaglen waith y Cabinet ar hyn o bryd yn wan o ran cynllunio ymlaen y tu hwnt i'r chwarter nesaf<br>• Mae angen edrych yn galed ar ymrwymiadau'r Cynllun Strategol newydd i adnabod yn fuan y materion hynny sydd angen penderfyniadau Cabinet ac adnabod y pynciau hynny lle y byddai'n ychwanegu gwerth i'w craffu ymlaen llaw<br>• Mae lefel a natur y deialog rhwng Aelodau Cabinet a phwyllgorau craffu unigol yn amrywio | (a) Comisiynu gwaith penodol ar y Cynllun Strategol newydd i adnabod pwyntiau penderfynu allweddol ac, yn sgil hynny, adegau craffu priodol, i fwydo hynny i'r Blaen-raglen Craffu ar gyfer y flwyddyn nesaf<br>(b) Edrych ar safoni disgwyliadau'r Cyngor am y deialog rhwng Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Craffu |
| 3. Defnyddio meini prawf dethol blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu'n gyson | • Roedd adroddiad y Swyddfa Archwilio yn brolio'r canllawiau dewis ond yn feirniadol na chawsant eu gweithredu'n gyson.<br>• Fodd bynnag, mae lle i wella eto ar y canllawiau ymhellach gan ofyn i'r pwyllgorau craffu roi ffocws ar y materion hynny lle y mae modd adnabod lle y mae lle i wella | Cyflawni gwaith penodol gyda'r Fforwm Craffu ar y canllawiau dewis ar gyfer gweithdai'r blaen-raglen ar gyfer 2016/17. |
| 4. Llunio cynlluniau adnoddau i nodi'r mewnbwn sy'n ofynnol gan swyddogion ac aelodau i gefnogi/cynnal rhaglenni craffu a gwaith ymchwilio'r pwyllgorau craffu | • Mae hwn yn anodd gan nad yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi medru dangos unrhyw esiampl lle mae hynny'n digwydd yn barod<br>• Fodd bynnag, mae synnwyr cyffredin ynghlwm ag ef ac mae lle i edrych os y medrwn wella ar ein trefniadau presennol | Ymchwilio i fodelau ar gyfer asesu gofynion capasiti craffu gan gyflwyno cynigion am hynny i'r Fforwm Craffu |

| | | |
|---|---|---|
| 5. Gwella ansawdd, cysondeb ac amseroldeb adroddiadau / gwybodaeth a ddarperir i bwyllgorau craffu | • Mae ansawdd a natur yr adroddiadau perfformiad eisoes wedi eu newid a defnyddir eleni i asesu a ydynt wedi gwella yn ôl y disgwyl<br>• Mae lle i ddatblygu ymhellach ar drefniadau paratoi'r pwyllgorau craffu fel eu bod yn amlinellu'n gliriach beth yw'r disgwyliadau o ran adroddiadau – "Be da ni isio gwella trwy graffu hwn?" a gwella ar eglurder argymhellion craffu | Datblygu ffocws cliriach yn y cyfarfodydd paratoi ar yr hyn y mae'r crafwyr yn dymuno ei gyflawni wrth graffu eitemau - arwain at ofynion cliriach ar awduron ac argymhellion craffu cliriach yn codi o'r trafodaethau |
| 6. Darparu adborth i'r pwyllgorau craffu am yr holl argymhellion a wneir i'r Cabinet – pa un a gawsant eu gweithredu ai peidio | • Mae arbrawf llwyddiannus eisoes wedi ei gynnal o gyflwyniad ffurfiol gan bwyllgor craffu i'r Cabinet – datblygir hynny ymhellach yn ystod y flwyddyn.<br>• Mae modd datblygu'r drefn adrodd ar hwn yn log a fydd, yn ei dro, yn bwydo'n hwylus i'r adroddiad blynyddol | (a) Ymestyn yr arbrawf o adrodd yn ffurfiol i'r Cabinet ac adrodd yn ôl i'r pwyllgorau craffu<br>(b) Datblygu'r trefniant hwn i greu log gweithredu argymhellion craffu |
| 7. Cynnwys asesiad yn yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu o sut mae gwaith y pwyllgorau craffu wedi cyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Craffu ac wedi helpu i wella gwasanaethau'r Cyngor | • Mae'r adroddiad blynyddol eisoes yn cynnig asesiad o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ond bydd y gwaith mewn ymateb i Argymhelliad 6 yn gwneud hynny'n haws<br>• Byddai modd dod i gasgliad cyffredinol ar wireddu'r amcanion yn y Strategaeth Graffu ond bydd angen cytuno ar fethodoleg ar gyfer gwneud hynny | (a) Ymchwilio i fethodoleg rhesymol i asesu'r graddau y gwireddwyd amcanion y Strategaeth Craffu<br>(b) Gwahodd y Fforwm Craffu i wneud hunanasesiad o hynny (mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus) |
| 8. Sicrhau bod holl argymhellion a/neu gynigion ar gyfer gwella'r cyrff rheoleiddio yn cael eu hadrodd wrth y pwyllgor craffu priodol, a bod y pwyllgor yn eu monitro | • Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno trefn ar gyfer monitro gweithredu ar argymhellion neu gynigion gwella.<br>• Bydd angen cynnwys y Pwyllgor Archwilio fwy fel rhan o drefniadau craffu prif-lif y Cyngor | Sicrhau dilyniant o adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio i gyfarfodydd paratoi pwyllgorau craffu yn y meysydd penodol ar gyfer y posibilrwydd o'u cynnwys yn y rhaglen waith craffu |
| 9. Gweithredu rhaglen hyfforddi a datblygu newydd i aelodau'r pwyllgorau craffu | • Mae cwrs peilot wedi ei gynnal gyda Chymdeithas Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau ffocws aelodau craffu ar bwrpas craffu<br>• Bydd yr hyfforddiant yn cael ei rowlio allan ymhellach yn ystod 2016 gan dargedu aelodau craffu yn arbennig | a) Datblygu'r trefniant hyfforddi newydd ymhellach gan dargedu sylw ar bwrpas craffu a sut mae ychwanegu gwerth<br>b) Cynnal sesiynau 1:1 ar gyfer aelodau craffu newydd<br>c)Paratoi pecyn am faes gwaith y pwyllgorau craffu ar gyfer Mai 2017 |